

Negeseuon allweddol o'r ymchwil ar blant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol

Di McNeish a Sara Scott, DMSS Research

Ail argraffiad, Chwefror 2023

Negeseuon allweddol

Mae'r term 'ymddygiad rhywiol niweidiol' yn disgrifio continwwm ymddygiad a arddangosir gan blant a phobl ifanc dan 18 oed, sy'n amrywio o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn 'amhriodol' ar oedran neu gam datblygiadol penodol i ymddygiad 'problemus', 'camdriniol' a 'threisgar'.

Nid oes ffigurau cywir am niferoedd ar y sbectrwm ymddygiad rhywiol niweidiol llawn. Fodd bynnag, mae data'n awgrymu mai pobl ifanc dan 18 oed sy'n gyfrifol am gyfran sylweddol o achosion o gam-drin plant yn rhywiol, ac mae cryn bryder ynghylch aflonyddu a cham-drin rhywiol eang sy'n cael ei 'normaleiddio' ymysg disgyblion mewn ysgolion.

Mewn plant cyn y glasoed, mae ymddygiad yn fwy tebygol o ogwyddo tuag at ochr 'amhriodol' neu 'broblemus' y continwwm. Mae'r rhan fwyaf o blant cyn y glasoed sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol wedi cael eu cam-drin yn rhywiol neu wedi wynebu mathau eraill o drawma neu esgeulustod.

Bechgyn yn bennaf yw'r plant hŷn a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol, ac mae gan lawer ohonynt nhw hanes o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac anawsterau teuluol.

Mae'n bwysig cofio nad yw'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol yn mynd ymlaen i gam-drin eraill, ac nid yw'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol yn cyflawni troseddau rhywiol pan fyddan nhw'n oedolion.

Mae'r ymchwil cyfyngedig i ymddygiad rhywiol niweidiol gyda chymorth technoleg yn awgrymu bod gan fechgyn sydd 'dim ond' yn edrych ar luniau o gam-drin plant yn rhywiol ar-lein hanes llawer llai cythryblus na'r rheini sy'n cyflawni troseddau rhywiol eraill. Efallai weithiau y bydd cysylltiad rhwng gwyllo pornograffi ar-lein ac ymddygiad rhywiol niweidiol dilynol.

Dim ond ychydig o ymchwil a gyhoeddwyd ar ymyriadau effeithiol, yn enwedig ym mhen 'problemus' y continwwm, er bod consensws cyffredinol bod angen i ymyriadau fod yn holistig, yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn cynnwys rhieni/gofalwyr.

Mae angen gwybodaeth a sgiliau ar weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant er mwyn ymateb i ymddygiad rhywiol niweidiol, ac i greu cyd-destunau sefydliadol sy'n sicrhau diogelwch rhag camdriniaeth. Dylai addysg ataliol fabwysiadu dull gweithredu 'ysgol gyfan' a hirdymor o ran perthnasoedd iach, a chynnwys plant a phobl ifanc wrth ddatblygu a darparu. Mae angen dulliau iechyd cyhoeddus ehangach hefyd sy'n herio anghydraddoldeb rhwng y rhywiau yn ogystal ag agweddau a gwerthoedd patriarchaidd.

Nod ein papurau 'negeseuon allweddol o'r ymchwil' yw darparu gwybodaeth gryno a pherthnasol i ymarferwyr rheng flaen a chomisiynwyr. Maen nhw'n dod â'r ymchwil diweddaraf at ei gilydd i greu trosolwg hygyrch, gan gefnogi darpariaeth hyderus o'r ymatebion gorau posibl i gam-drin plant yn rhywiol.

Beth yw ymddygiad rhywiol niweidiol?

Diffiniwyd ymddygiad rhywiol niweidiol fel ymddygiad rhywiol gan bobl ifanc dan 18 oed sy'n "*ddatblygiadol amhriodol, all fod yn niweidiol i'w hunain neu eraill a/ neu'n gamdriniol tuag at blentyn, person ifanc neu oedolyn arall*" (Hackett et al, 2019). Gall y rheini sy'n arddangos ymddygiad o'r fath neu sy'n cael eu niweidio gan ymddygiad o'r fath fod yn wryw neu'n fenyw. Gall ymddygiad sy'n 'briodol yn ddatblygiadol' mewn plant ifanc beri pryder yn y glasoed; a byddai ymddygiad arall, sy'n gyffredin yn y glasoed, beri pryder mewn plant iau (Ryan, 2000; Friedrich et al, 2001).

Mae ymddygiad rhywiol mewn plant a phobl ifanc wedi'i ddisgrifio fel rhywbeth sy'n bodoli ar gontinwrm sy'n amrywio o'r hyn a ystyrir yn 'normal' ac yn ddatblygiad disgwylidig, hyd at 'amhriodol' a 'phroblemus', i 'gamdriniol' a 'threisgar' (Hackett, 2010). Nid yw'r cysyniad o ymddygiad rhywiol 'normal' gan blant a phobl ifanc yn syml: mae'r hyn sy'n 'ddisgwylidig' neu'n 'gyffredin' mewn camau datblygu gwahanol yn amrywio o ran diwylliant a hanes, ac mae ymddygiad sy'n cael ei ystyried yn 'normal' gan rai pobl mewn rhai cyd-destunau hefyd yn gallu bod yn broblemus neu'n gamdriniol. Er enghraifft, mae ymddygiad a brofir fel aflonyddu gan lawer o ddioddefwyr yn cael ei ystyried yn normal gan lawer o bobl ifanc eraill (Stanley et al, 2016; Coy et al, 2016; Ofsted, 2021; Yr Adran Addysg, 2022a).

Graddau ymddygiad rhywiol niweidiol

Ymysg yr atgyfeiriadau at wasanaethau plant awdurdodau lleol yn Lloegr yn ystod 2021/22 lle aseswyd bod cam-drin rhywiol yn bryder, roedd 40% yn cynnwys ymddygiad rhywiol niweidiol (Yr Adran Addysg, 2022b). Fodd bynnag, nid oes ffigurau cywir ynglŷn â faint o ymddygiad rhywiol niweidiol sy'n bodoli, yn rhannol am ei fod yn cwmpasu sbectrwm mor eang o ymddygiadau, ac nid yw'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n dod i sylw'r asiantaethau.

Mae'r mwyafrif helaeth o ymddygiad rhywiol niweidiol yn cynnwys plant a phobl ifanc sy'n adnabod ei gilydd yn dda. Amcangyfrifwyd bod rhwng chwarter a hanner yr ymddygiad rhywiol niweidiol yn cynnwys brodyr a chwiorydd neu berthnasau agos fel cefndryd, neiaint a nithod (Yates ac Allardyce, 2021).

Mae nifer o arolygon ar raddfa fawr yn dangos bod genethod yn dioddef ymddygiad rhywiol niweidiol fel mater o drefn yn eu bywydau bob dydd. Roedd arolwg ar rywiaeth mewn ysgolion uwchradd wedi darganfod darlun o aflonyddu rhywiol sy'n seiliedig iawn ar rywedd: Roedd 37% o enethod yn dweud eu bod wedi profi aflonyddu rhywiol, o'i gymharu â 6% o fechgyn (Undeb Addysg Cenedlaethol ac UK Feminista, 2017). Roedd adolygiad cyflym o aflonyddu ac ymosodiad rhywiol mewn ysgolion a cholegau yn Lloegr wedi darganfod bod aflonyddu rhywiol yn 'gyffredin', a bod bron i 90% o enethod – yn ogystal â 50% o fechgyn – yn dweud bod derbyn lluniau neu fideos anweddus o bethau nad oedden nhw eisiau'u gweld yn digwydd 'yn aml' neu 'weithiau' (Ofsted, 2021). Mewn adolygiad tebyg yng Nghymru, roedd genethod yn disgrifio pwysau cyson gan fechgyn i anfon lluniau noeth (Estyn, 2021), a dywedodd dros hanner y bechgyn eu bod yn ymwneud yn bersonol ag aflonyddu rhywiol.

Beth sy'n hysbys am blant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol?

Plant cyn-glasoed

Er y gall ymddygiad rhai plant cyn-glasoed fod yn 'broblemus', anaml iawn y mae'n fwriadol gamdriniol (Johnson a Doonan, 2005). Mae llawer o blant cyn-glasoed sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol wedi cael eu cam-drin yn rhywiol neu wedi cael profiadau rhywiol sy'n ddatblygiadol amhriodol, fel gweld pornograffi (Johnson a Doonan, 2005; Chromy, 2007). Gall eu hymddygiad fod yn ffordd o gyfathrebu'r hyn sydd wedi digwydd iddyn nhw neu fod yn ymateb anuniongyrchol i ffactorau eraill yn eu bywydau, gan gynnwys mathau eraill o drama ac esgeulustod (Gray et al, 1999).

Plant y glasoes

T Mae ymddygiad rhywiol niweidiol yn cael ei arddangos fwyaf ymhlith y rhai sydd yn eu harddegau cynnar (Ryan et al, 1996; Taylor, 2003; Hackett et al, 2013). Bechgyn yw'r mwyafrif helaeth o'r glasoes sy'n arddangos ymddygiad o'r fath (Taylor, 2003; Vizard et al, 2007; Finkelhor et al, 2009; Hackett et al, 2013; Fox a DeLisi, 2018), ond anaml iawn y bydd ymchwil neu ymarfer yn canolbwyntio ar arwyddocâd rhywedd (Allardyce et al, 2021).

Mae'r rhan fwyaf o waith ymchwil wedi'i gynnal gyda phoblogaethau 'clinigol' neu gyfiawnder troseddol ac mae wedi canfod dro ar ôl tro bod bechgyn sydd wedi cyflawni trosedd rhywiol, neu wedi cael eu cyfeirio at wasanaethau arbenigol oherwydd pryderon am eu hymddygiad, yn gyffredinol yn cael anawsterau mawr eraill yn eu bywydau; mae'r rhain yn cynnwys profiad o gam-drin corfforol neu rywiol neu esgeulustod, gweld trais domestig, neu rieni â phroblemau iechyd meddwl neu sy'n cam-drin sylweddau (Salter et al, 2003; Skuse et al, 1998; Glasser et al, 2001; Ogloff et al, 2012; Levenson et al, 2017; Yoder et al, 2018; Tougas et al, 2016; Malvaso et al, 2020; Faure-Walker a Hunt, 2022). Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn tueddu i fod â chysylltiad cryfach ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn gwrywod na menywod (Schilling et al, 2007; Vaswani, 2018).

Mae'r glasoes sy'n arddangos ymddygiad rhywiol camdriniol neu dreisgar, fel eu cyfoedion sy'n arddangos

ymddygiad troseddol heb fod yn rhywiol, yn debygol o fod â hunan-barch isel, sgiliau cymdeithasol gwael ac anawsterau gyda dicter, iselder a pherthnasoedd gyda chyfoedion (Chaffin et al, 2002; Ward a Siegert, 2002; Yoder et al, 2018).

O ystyried y ffactorau hyn, nid yw'n syndod bod canlyniadau oedolion yn aml yn wael. Mae nifer o astudiaethau'n awgrymu bod cyfraddau troseddu rhywiol pellach yn isel (e.e. McCann a Lussier, 2008), ond mae arolwg 10–20 mlynedd yn ddiweddarach o bobl ifanc a gafodd eu cyfeirio'n flaenorol at wasanaeth arbenigol wedi darganfod mai dim ond chwarter oedd wedi cael canlyniadau llwyddiannus mewn bywyd; roedd perthnasoedd a sefyllfaoedd byw ansefydlog, problemau iechyd, a chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol yn brofiadau cyffredin (Hackett et al, 2022).

Pan fydd ymddygiad rhywiol niweidiol yn cynnwys brodyr a chwiorydd, gall ddigwydd yng nghyd-destun trais ac esgeulustod teuluol (McDonald a Martinez, 2017; Tener, 2021; Yates ac Allardyce, 2021). O'i gymharu â cham-drin arall o fewn y teulu, gall ddigwydd yn fwy aml a thros gyfnodau hwy, a bod yn fwy tebygol o gynnwys gweithredoedd ymwithiol a threiddiol (Cyr et al, 2002).

Cydnabyddir fwyfwy bod rhai mathau o aflonyddu rhywiol ac ymddygiad camdriniol rhwng y glasoes mor gyffredin mewn ysgolion a cholegau fel bod rhai pobl ifanc yn eu hystyried yn 'normal' (Ofsted, 2021). Gall ymddygiad rhywiol hynod gamdriniol a threisgar ddigwydd yng nghyd-destun grwpiau neu gangiau troseddol, lle gellir gorfodi trais rhywiol yn ogystal â'i normaleiddio (Firmin gyda Lloyd, 2017). Mae lefelau uwch o ymddygiad gwrthgymdeithasol cyffredinol yn tueddu i gael ei ddangos gan y glasoes sy'n ymddwyn mewn ffordd rywiol niweidiol tuag at eu cyfoedion, o'i gymharu â'r rheini lle mae eu hymddygiad rhywiol niweidiol yn targedu plant iau (Parks, 2007; Leverage, 2015; Leibowitz et al, 2016; Fox, 2017).

Mae'n bwysig cofio nad yw'r rhan fwyaf o bobl sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol yn mynd ymlaen i gam-drin eraill (Salter et al, 2003) ac nad yw'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol yn symud ymlaen i gyflawni troseddau rhywiol pan fyddan nhw'n oedolion (Zimring et al, 2009; Aebi et al, 2015). Fodd bynnag, mae mwy o risg y bydd glasoes hŷn sy'n cam-drin plant iau, a'r rhai y mae eu hymddygiad rhywiol yn cynnwys trais, yn cyflawni troseddau rhywiol pellach (Hackett et al, 2013).

Plant ag anableddau dysgu neu awtistiaeth

Mae plant a phobl ifanc sydd ag anableddau dysgu yn fwy agored i gael eu cam-drin yn rhywiol (Sullivan a Knutson, 2000) ac i arddangos ymddygiad rhywiol amhriodol neu broblemus; mewn un astudiaeth fawr yn y DU, roedd anabledd dysgu ar 38% o'r rheiny dan 18 oed a atgyfeiriwyd at wasanaethau arbenigol oherwydd ymddygiad rhywiol niweidiol (Hackett et al, 2013). Fodd bynnag, mae'n debygol bod y lefel uchel o oruchwyliaeth gan oedolion dros blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu yn golygu bod eu hymddygiad rhywiol yn fwy tebygol o gael ei weld a'i wneud yn broblem (Allardyce ac Yates, 2018).

Mae'r rhesymau pam y gallai rhai plant a phobl ifanc ag anableddau dysgu fod yn fwy tebygol o arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol yn cynnwys meddu ar lai o ddealltwriaeth nad yw rhai mathau o ymddygiad rhywiol yn dderbyniol, a llai o gyfleoedd i sefydlu perthnasoedd rhywiol derbyniol; cael llai o addysg rhyw; cael trafferth â sgiliau cymdeithasol; ac ymwneud yn haws â phlant sy'n iau na nhw eu hunain (Allardyce ac Yates, 2018; O'Callaghan, 1998).

Mae ymchwil yn awgrymu *nad* oes risg uwch i unigolion ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig droseddau'n gyffredinol (Mouridsen, 2012), ond gall cyfran o ymddygiadau rhywiol niweidiol mewn unigolion ag awtistiaeth ddeillio o anawsterau penodol o ran deall beth mae pobl eraill yn ei feddwl neu'n ei deimlo (Mogavero, 2016; Allely a Creaby-Attwood, 2016).

Datblygwyd 'The Good Way', sef model sy'n seiliedig ar gryfderau ar gyfer gweithio gyda'r glasoed ag anableddau dysgu, yn Seland Newydd (Ayland a West, 2006; Weedon, 2015). Mae ymyriad therapi gwybyddol ymddygiadol grŵp ar ffurf llawlyfr 'Keep Safe' yn y DU yn ddatblygiad diweddar arall (Malovic et al, 2018).

Genethod a menywod ifanc

Mae'r rhan fwyaf o ymchwil i ymddygiad rhywiol niweidiol yn seiliedig ar boblogaethau o wrywod neu ddim ond yn cynnwys nifer fach o enethod (Hallett et al, 2019). Serch hynny, mae astudiaethau wedi darganfod bod genethod a menywod ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywiol camdriniol yn debygol o fod wedi profi mwy o erledigaeth (gan gynnwys cam-drin rhywiol o fewn y teulu, mathau eraill o gamdriniaeth ac wedi bod yn dyst i drais yn y cartref yn rheolaidd) (Miccio-Fonseca, 2000 a 2016; Kubik et al, 2003). Yn ôl dwy astudiaeth yn y DU (Mathews et al, 1997; Masson et al, 2015), o'i gymharu â bechgyn roedd genethod a oedd wedi cael eu niweidio'n rhywiol fel arfer wedi dioddef camdriniaeth fwy cronig a helaeth yn ystod eu plentynod, ac wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn gynharach mewn bywyd ac yn fwy tebygol o fod wedi cael eu cam-drin gan fwy nag un person.

Mae ymddygiad rhywiol niweidiol yn tueddu i gael ei weld o oed iau mewn genethod nag mewn bechgyn, ac mae'n tueddu i gynnwys dioddefwyr iau (Finkelhor et al, 2009). Mae'n gymharol anghyffredin i ymddygiad rhywiol camdriniol genethod gynnwys defnyddio grym corfforol. Mae genethod sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol yn llai tebygol na bechgyn i gael eu cyhuddo o drosedd, yn rhannol am eu bod nhw a'u dioddefwyr yn tueddu i fod yn iau (Hutton a Whyte, 2006; Hickey et al, 2008) – ond, fel bechgyn sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol, maen nhw'n aml yn cael anawsterau yn yr ysgol ac â lefelau cymharol uchel o anawsterau dysgu (Scott a Telford, 2006; McCartan et al, 2011).

Mae Barnardo's wedi datblygu pecyn adnoddau ar gyfer ymarferwyr sy'n helpu genethod sydd wedi arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol i ddatblygu perthnasoedd rhywiol iach (Barnardo's Cymru, 2016).

Ymddygiad rhywiol niweidiol gyda chymorth technoleg

Mae'r defnydd o dechnoleg bellach yn hanfodol i ryngweithiadau llawer o bobl o ddydd i ddydd, ond mae'r ymchwil i rôl technoleg mewn ymddygiad rhywiol niweidiol yn dal i fod yn gyfyngedig iawn. O ystyried y cyd-destun newidiol y mae plant a phobl ifanc yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol – gyda Wi-Fi a data symudol nawr yn galluogi mynediad i'r rhyngwrdd oddi cartref ac i ffwrdd o oruchwyliaeth oedolion – mae'n her penderfynu beth sy'n ymddygiad ar-lein 'normal' yn hytrach na 'phroblemus' o ran datblygiad. Er enghraifft, daeth arolwg yn y DU i'r casgliad bod 48% o blant 11–16 oed wedi gweld pornograffi – ac o'r rheiny a oedd wedi'i weld, roedd 34% yn dweud eu bod wedi'i weld unwaith yr wythnos neu fwy (Martellozzo et al, 2020).

Daeth un astudiaeth yn y DU i'r casgliad, ymysg dynion ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol a gyflawnir ar-lein ac 'all-lein', bod y defnydd datblygiadol amhriodol o bornograffi wedi bod yn sbardun i'w hymddygiad all-lein mewn mwy na hanner yr achosion (Hollis a Belton, 2017). Mewn astudiaeth o bobl ifanc ledled Ewrop, canfuwyd bod bechgyn a oedd yn gwyllo pornograffi ar-lein yn rheolaidd yn llawer mwy tebygol o feddu ar agweddau negyddol tuag at rywedd; ar ben hynny, roedd gwyllo pornograffi yn rheolaidd ac anfon/derbyn lluniau neu negeseuon rhywiol yn gysylltiedig â'r tebygolrwydd uwch o gymell yn rhywiol (Stanley et al, 2016).

Mae'r berthynas rhwng gwyllo pornograffi ac arddangos ymddygiad niweidiol yn ddiweddarach yn debygol o ddibynnu ar fath a chynnwys y deunydd sy'n cael ei wyllo, y cymhelliant dros ei wyllo, a ffactorau fel oedran gwyllo'r deunydd am y tro cyntaf a pha aml mae'n cael ei wyllo (Svedin et al, 2011). Efallai fod plant a phobl ifanc sydd â risg uwch o gymryd rhan mewn ymddygiad o'r fath yn fwy tebygol o chwilio am bornograffi, neu fod y berthynas yn mynd i sawl cyfeiriad (Alexy et al, 2009; Horvath et al, 2013; Patterson et al, 2022).

Mae rhai astudiaethau'n dangos, o'i gymharu â'r rheiny sy'n cyflawni mathau eraill o droseddau rhywiol, bod pobl ifanc sydd 'dim ond' yn gweld lluniau o gam-drin plant yn rhywiol yn llai tebygol o fod wedi cael profiadau niweidiol yn ystod eu plentyndod, ac yn fwy tebygol o ddod o gefndiroedd teuluol sefydlog a breintiedig yn economaidd ac i fod yn gwneud yn dda yn addysgol (Moultrie, 2006; Stevens et al, 2013; Aebi et al, 2014).

Asesu effeithiol

Ychydig iawn o ymchwil a gyhoeddwyd ar ffyrdd priodol o asesu plant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol. Fodd bynnag, cytunir yn gyffredinol y dylai unrhyw asesiad ystyried eu datblygiad cymdeithasol, emosiynol a gwybyddol, ynghyd â'u hamgylchiadau nhw a'r teulu – gan gynnwys unrhyw brofiad blaenorol o gam-drin. Mae'n bwysig edrych ar ymddygiad rhywiol niweidiol o safbwynt trawma er mwyn nodi gwendidau a meysydd lle mae angen heb ei ddiwallu (Chaffin et al, 2002; Hackett, 2014).

Felly, mae cefnogaeth gyffredinol dros ddefnyddio offer asesu holistig. Mae'r offer hyn yn ystyried y risgiau penodol o ymddygiad y plentyn neu berson ifanc (gan gynnwys ar-lein) a'u cymhellion, a'u hanghenion a'u cryfderau ar lefelau unigol, teuluol a chymunedol (Hackett, 2014; Prentky et al, 2010; Griffin et al, 2008, Allardyce ac Yates, 2018). Nod nifer ohonynt yw asesu'r tebygolrwydd y bydd yr ymddygiad rhywiol niweidiol yn parhau neu'n cynyddu, ond nid oes yr un ohonynt wedi'i ddilysu fel mesur proffwydol (Carson, 2017; Prentky et al, 2010).

Gellir cynnal asesiadau ar gyfer amrywiaeth o ddibenion: clinigol, amddiffyn plant neu gyfiawnder troseddol. Mae'n bwysig cofio bod plant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol yn boblogaeth amrywiol, ac efallai na fydd y pwynt gorgyffwrdd rhwng 'dioddefwr' a 'chylawnwr' bob amser yn glir (Faure-Walker a Hunt, 2022). Cynigiwyd dull gweithredu haenog, gan sicrhau bod lefel ac ymwithgarwch yr asesiad yn cyfateb i ddirifoldeb yr ymddygiad a'r cyd-destun cyfreithiol (Allardyce ac Yates, 2018).

Ymyriadau effeithiol

Mae'n bwysig cydnabod bod y rhan fwyaf o dystiolaeth hyd yma ynghylch effeithiolrwydd ymyriadau'n deillio o astudiaethau o fechgyn a dynion ifanc sydd wedi'u cael yn euog o droseddau rhywiol. Nid oes llawer o dystiolaeth ynghylch ymyriadau ym mhen 'amhriodol' neu 'broblemus' y continwmm, nac ynghylch ymyriadau sy'n cynnwys genethod neu blant ag anabledau dysgu.

Mae dulliau ymyrryd mewn perthynas ag arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol yn tueddu i fod yn 'ddall i rywiau' ac anaml y maen nhw'n mynd i'r afael â braint dynion, anghydraddoldeb rhwng y rhywiau, mathau 'gwenwynig' o wrywod neu fythau beio'r dioddefwr sy'n sail i niwed rhywiol (Allardyce et al, 2021). Awgrymwyd y gallai fod angen dull mwy cymdeithasegol ac sy'n ystyriol o faterion ffeministaidd wrth ymyrryd, ac y gallai peidio â mynd i'r afael â rôl gwerthoedd ac agweddau patriarchaidd mewn perthynas â datblygiad ymddygiad rhywiol niweidiol olygu y gall plant a phobl ifanc fod mewn perygl o gymryd rhan mewn rhagor o drais ar sail rhyw yn y glasoed a phan fyddan nhw'n oedolion (Allardyce et al, 2021).

Mae'r rhan fwyaf o ymyriadau wedi'u gwerthuso yn cynnwys elfen therapi gwybyddol ymddygiadol (Carpentier et al, 2006; St Amand et al, 2008). Fodd bynnag, roedd adolygiad diweddar Cochrane wedi darganfod mai dim ond pedwar o'r hap-dreialon wedi'u rheoli ar gyfer therapi gwybyddol ymddygiadol a oedd yn gymwys i'w cynnwys; daeth i'r casgliad, ar sail y dystiolaeth, nad yw'n sicr a yw'r therapi hwnnw'n lleihau ymddygiad rhywiol niweidiol o'i gymharu â thriniaethau eraill (Sneddon et al, 2020).

Serch hynny, mae consensws eang bod angen i ymyraethau fod yn gymesur â natur a graddau'r ymddygiad, ac i oedran a cham datblygu'r plentyn neu berson ifanc; mae angen prosesau cyd-gysylltiedig i atal asiantaethau rhag gorymateb neu beidio ag ymateb ddigon i ymddygiad rhywiol niweidiol (Hackett et al, 2005; Smith et al, 2013).

Mae'n ymddangos ei bod hi'n bwysig cynnwys rhieni a gofalwyr yn y driniaeth (St Amand et al, 2008; Barry a Harris, 2019). Mae'r dulliau mwyaf gwerthfawr yn rhai strwythuredig a holistig, ac yn ystyried sefyllfa gyfan y plentyn neu'r person ifanc (nid yr ymddygiad problemus yn unig), gan roi sgiliau rhyngpersonol iddynt yn ogystal â gwybodaeth, gyda pherthynas therapiwtig sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth wrth wraidd hynny (Chaffin et al, 2002; Hackett et al, 2006; Fonagy et al, 2017; Campbell et al, 2016; Faure-Walker a Hunt, 2022).

O ystyried y ffaith bod llawer o blant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol wedi cael eu cam-drin eu hunain, mae ymyriadau sy'n ystyriol o drawma sy'n effeithiol â dioddefwyr sy'n blant hefyd yn berthnasol (Saunders et al, 2003).

Yn hanesyddol, deilliodd llawer o ymyriadau o fodolau a ddatblygwyd gydag oedolion sy'n droseddwyr rhyw ac erbyn hyn ystyrir eu bod nhw'n amhriodol (Campbell et al, 2016). Gwelwyd newid graddol tuag at dulliau mwy ecolegol, datblygiadol sensitif ac unigol o asesu ac ymyrryd (Allardyce ac Yates, 2018). Mae hyn wedi digwydd ochr yn ochr â diddordeb cynyddol mewn modelau gwytnwch, sy'n ceisio meithrin cryfderau'r plentyn neu berson ifanc a lleihau'r risg o ailadrodd ymddygiad rhywiol niweidiol drwy eu helpu i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol ac uchelgeisiau pro-gymdeithasol (Hackett, 2006; Ward et al, 2007). Er nad oes llawer o waith gwerthuso dulliau o'r fath wedi'i wneud, mae eu hegwyddorion yn gyson â'r hyn rydym yn ei wybod o astudiaethau dilynol troseddwyr ynglŷn â'r ffactorau sy'n cyfrannu at ganlyniadau gwell – megis cael dyheadau a gobeithion am y dyfodol, perthnasoedd sefydlog a pharhaus fel oedolion, cyflawniad addysgol gwell, a chyfleoedd a sgiliau i gael gwaith (Hackett et al, 2012).

Atal

Mae 'safonau dwbl' yn dal i fodoli ymysg y rhywiau lle mae ymddygiad rhywiol bechgyn – gan gynnwys secstio – yn codi eu statws ymysg eu cyfoedion gwrywaidd, tra codir cywilydd ar enethod neu eu condemnio os ydyn nhw'n rhannu lluniau ohonyn nhw eu hunain (Agnew, 2021; Quayle a Cariola, 2017). Mae ymchwil yn awgrymu bod llawer o bobl ifanc yn dysgu am ryw drwy bornograffi yn bennaf, ac mae hynny'n arwain dynion ifanc i feddwl y dylai rhyw fod yn 'ymosodol' ac yn 'rymus' (Coy et al, 2016).

Ar ôl i wefan Everyone's Invited

www.everyonesinvited.uk/ dynnu sylw at brofiadau o gam-drin rhywiol ac aflonyddu mewn ysgolion ledled y DU, roedd Ofsted ac Estyn wedi darganfod nad oedd rhai athrawon ac arweinwyr ysgolion yn sylweddoli maint y broblem (Ofsted, 2021; Estyn, 2021), gan gadarnhau arolwg cynharach lle dywedodd 61% o enethod 11–16 oed fod staff yr ysgol weithiau neu bob amser yn diystyru aflonyddu rhywiol fel tynnu coes neu 'fechgyn yn chwarae o gwmpas' (Girlguiding, 2014). Ni fyddai chwarter (27%) o athrawon ysgolion uwchradd yn teimlo'n hyderus ynghylch mynd i'r afael â digwyddiad rhywiaethol pe baent yn ei brofi neu'n ei weld yn yr ysgol (Undeb Addysg Cenedlaethol ac UK Feminista, 2017).

Darganfuwyd bod defnyddio dulliau cosbedigol a dulliau sy'n seiliedig ar sancsiynau i ddelio ag ymddygiad rhywiol niweidiol yn arwain at ostyngiad yn nifer y plant sy'n rhoi gwybod amdano – gan nad ydynt yn ystyried eu bod yn effeithiol – ac maen nhw'n cyfyngu ar allu staff i wneud penderfyniadau (Lloyd a Bradbury, 2022).

Mae'r rhan fwyaf o weithgarwch sy'n canolbwyntio ar atal ymddygiad o'r fath ar ffurf rhaglenni yn yr ysgol i godi ymwybyddiaeth o gamfanteisio'n rhywiol, diogelwch ar y rhynggrwyd, cydsyniad ac aflonyddu rhywiol, ac i hyrwyddo perthnasoedd iach. Y sail resymegol yn gyffredinol yw bod angen mynd i'r afael ag agweddau ac ymddygiadau nad ydynt yn iach yn gynnar, ar lefel unigol ac ar lefelau cymunedol a chymdeithasol (Letourneau et al, 2017).

Dim ond effaith fach iawn ar ymddygiad a gafodd gwerthuso rhaglenni o'r fath mewn ysgolion, er eu bod yn gallu meithrin hyder, cynyddu gwybodaeth a newid rhai agweddau a allai wneud ymddygiad niweidiol yn dderbyniol (Ludvigsen a Scott, 2021; McNeish a Scott, 2015). Mae'r dulliau mwyaf effeithiol yn rhai hirdymor ac yn cynnwys plant a phobl ifanc yn y gwaith o ddatblygu a darparu (Bovarnick a Scott, 2016; Davis a Gidycz, 2000). Mae hefyd yn defnyddio dull ysgol gyfan: ochr yn ochr â sesiynau yn yr ystafell ddosbarth, mae angen i ysgolion ystyried sut maen nhw'n hyrwyddo perthnasoedd iach ar draws y cwricwlwm, yn eu polisïau bwlio a diogelu, yn eu cefnogaeth fugeiliol ac yn yr wybodaeth a'r gefnogaeth a roddir i rieni (Scott et al, 2019).

Mae canllawiau newydd gan y llywodraeth ar gyfer ysgolion a cholegau yn Lloegr ar ddelio â thrais ac aflonyddu rhywiol (Yr Adran Addysg, 2022a) yn pwysleisio pwysigrwydd defnyddio dull ysgol gyfan o ddiogelu, rhaglen addysg ataliol gref, ac agwedd dim goddefgarwch tuag at ymddygiad amhriodol er mwyn atal ymddygiad problemus, camdriniol a/neu dreisgar yn y dyfodol.

Argymhellwyd dull llawer ehangach o atal yn ddiweddar, sy'n cynnwys dull iechyd y cyhoedd o fynd i'r afael â ffactorau risg sylfaenol; dadansoddiad o anghydraddoldebau, agweddau a normau ar sail rhyw fel ffactorau sy'n sbarduno cam-drin; ac ymyriadau ac addysg seico-gymdeithasol ar lefel unigol (Llywodraeth yr Alban, 2020; gweler hefyd McCartan a Kemshall, 2021).

Cyfeiriadau

Aebi, M., Landolt, M., Mueller-Pfeiffer, C., Schnyder, U., Maier, T. a Mohler-Kuo, M. (2015) Testing the "sexually abused-abuser hypothesis" in adolescents: A population-based study. *Archives of Sexual Behavior*, 44(8):2189–2199

<https://doi.org/10.1007/s10508-014-0440-x>

Aebi, M., Plattner, B., Ernest, M., Kaszynski, K. a Bessler, C. (2014) Criminal history and future offending of juveniles convicted of the possession of child pornography. *Sexual Abuse*, 26(4):375–390.

<https://doi.org/10.1177/1079063213492344>

Agnew, E. (2021) Sexting among young people: Towards a gender sensitive approach. *The International Journal of Children's Rights*, 29(1):3–30.

<https://doi.org/10.1163/15718182-28040010>

Alexy, E., Burgess, A. a Prentky, R. (2009) Pornography use as a risk marker for an aggressive pattern of behavior among sexually reactive children and adolescents. *Journal of the American Psychiatric Nurses Association*, 14(6):442–453.

<https://doi.org/10.1177/1078390308327137>

Allardyce, S. ac Yates, P. (2018) *Working with Children and Young People Who Have Displayed Harmful Sexual Behaviour*. Caeredin: Dunedin Academic Press.

Allardyce, S., Yates, P. a Wareham, S. (2021) How could a gender-sensitive approach help us to identify and respond to children who have displayed harmful sexual behaviour? Yn Bradbury-Jones, C. ac Isham, L. (gol.) *Understanding Gender-Based Violence: An Essential Textbook for Nurses, Healthcare Professionals and Social Workers*. Cham, Swistir: Springer.

https://doi.org/10.1007/978-3-030-65006-3_4

Allely, C. a Creaby-Attwood, A. (2016) Sexual offending and autism spectrum disorders. *Journal of Intellectual Disabilities and Offending Behaviour*, 7(1):35–51.

<https://doi.org/10.1108/JIDOB-09-2015-0029>

Ayland, L. a West, B. (2006) The Good Way model: A strengths-based approach for working with young people, especially those with intellectual difficulties, who have sexually abusive behaviour. *Journal of Sexual Aggression*, 12(2):189–201.

<https://doi.org/10.1080/13552600600841680>

Barnardo's Cymru (2016) *Girls' Talk: Supporting Girls to Develop Healthy Sexual Relationships*. Barkingside: Barnardo's.

www.barnardos.org.uk/sites/default/files/2022-03/girl%20talk%20workbook-compressed.pdf

Barry, S a Harris, E. (2019) The children's programme: a description of a group and family intervention for children engaging in problematic and harmful sexual behaviour and their parents/carers. *Journal of Sexual Aggression*, 25(2): 193–206.

<https://doi.org/10.1080/13552600.2019.1589002>

